# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.00 y.h., DYDD LLUN, 13EG GORFFENNAF, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**Am fynediad cyhoeddus I'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**Cynghorwyr Gwynedd**

**Dafydd Davies**
**Gareth Tudor Jones**
**John Brynmor Hughes**
**Gruffydd Williams**
**Gareth Williams**

**Eraill**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Trefor a Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd**

**Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,**
**Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**

# R H A G L E N

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026-27.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026-27.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw eitem sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 4 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2026 fel rhai cywir.

**7. TIRLUN BYW** 13 - 14

I rannu gwybodaeth a diweddaru Aelodau ar gynnydd prosiect Tirlun Byw.

**8. PROSIECTAU CYFALAF AHNE LLŶN** 15

I rannu diweddariad am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn.

**9. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY** 16 - 19

I ddarparu Gwybodaeth am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer blwyddyn Ariannol 2026-27.

**10. ADRODDIAD CYFLWR YR AHNE** 20 - 24

I ystyried addasiadau I Adroddiad o Gyflwr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 18/03/2026

**Yn bresennol**:

**Aelodau:** **Sian Parri** (Cyngor Cymuned Tudweiliog) (Cadeirydd)
**Y Cynghorydd Gareth Williams** (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr **Gareth Tudor Jones** a **Gruffydd Williams** ynghyd â'r Cynghorydd **Angela Russell** (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd) **Noel Davey** (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), **Jina** Gwyrfai (Cyngor Cymuned Trefor a Llanaelhaearn), **Eirian Allport** (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr), **Andrew Parry** (Cyngor Cymuned Llanbedrog) **Jenny Emmett** (Archaeoleg Gwynedd), **Guto Roberts** (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), **Seimon Jones** (Cyfeillion Llŷn) a **Morgan Jones-Parry** (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor)

**Swyddogion: Bleddyn P. Jones** (Swyddog AHNE Llŷn), **Elin Wyn Hughes** (Swyddog Gweithgareddau AHNE Llŷn), **Kevin Roberts** (Warden Cefn Gwlad – AHNE Llŷn), **Heledd Fflur Jones** (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio), a **Rhodri Jones** (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd datganiadau o ymddiheuriad gan:

- **Rhys Llewelyn** (Cyfeillion Llŷn) gyda **Seimon Jones** yn dirprwyo.
- **Robert Parkinson** (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) yn dilyn ailstrwythuro, gyda Guto Roberts yn aelod newydd, ac yn bresennol ar gyfer yr awr gyntaf o'r cyfarfod.
- **Dewi Evans** (Cyngor Cymuned Aberdaron)
- **Y Cynghorydd John Brynmor Hughes**
- **Sianelen Pleming** (Cyngor Cymuned Pistyll)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyd-bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 02 Gorffennaf, 2025, fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU CYFALAF AHNE LLŶN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn ac Warden Cefn Gwlad – AHNE Llŷn, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod yr holl brosiectau a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn cael eu hariannu drwy geisiadau at gynllun grant 'Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy' Llywodraeth

Cymru sydd ar gael ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru - Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Ymhelaethwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gosod themâu ar gyfer y grant ar gyfer 2025-27 sef 'Hyrwyddo bioamrywiaeth ac adfer natur', 'Hwyluso datgarboneiddio' a 'Gwelliannau cyffredinol yn ymwneud hefo mynediad, isadeiledd a phwysau yn sgil ymwelwyr'. Tywyswyd yr Aelodau drwy'r prosiectau llwyddiannus a gyflwynwyd gan AHNE Llŷn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, gan gadarnhau bydd gwybodaeth bellach ar gael i'r cyhoedd drwy newyddlen Llygad Llŷn.

**Plannu Coed Cynhenid**
Adroddwyd bod plannu coed cynhenid megis coed derw, draenen ddu, draenen wen, celyn, cyll, bedw arian a rhywogaethau eraill, yn cynnig buddion sylweddol i'r amgylchedd megis creu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, amsugno carbon o'r amgylchedd, puro a rheoli dŵr a darparu adnodd cynaliadwy i'r dyfodol.

Cydnabuwyd bod yr Uned AHNE Llŷn wedi wynebu her wrth ganfod lleoliadau addas i blannu'r coed hyn, gan nad oedd digon o dir addas ar gael ym meddiant y Cyngor i wneud hynny'n briodol. Ymhelaethwyd bod Swyddogion wedi cydweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol er mwyn derbyn caniatâd i blannu coed yn Tŷ'n Parc, ger Plas yn Rhiw. Diolchwyd hefyd i swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru am gynorthwyo'r prosiect gan obeithio bydd modd parhau gyda'r cynllun yn y flwyddyn nesaf ar diroedd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cadarnhawyd bod y gwaith wedi cael ei gyflawni eleni ym Mhlas yn Rhiw a Thŷ'n Parc (y Rhiw) yn ogystal ag ardaloedd ger y fynwent a'r ardd gymunedol yn Nefyn, gan ddiolch i bawb sydd wedi ymgymryd â'r gwaith.

**Rhywogaethau Ymledol Estron**
Eglurwyd bod y prosiect hwn yn ddilyniant i waith ymchwil a wnaed ar y rhywogaethau ymledol estron sydd yn niweidiol i fywyd gwyllt cynhenid AHNE Llŷn, gan ymgeisio i'w gwaredu gan eu bod yn fygythiad mewn mannau. Pwysleisiwyd bod y prosiect hwn yn un heriol gan fod y rhywogaethau ymledol estron i'w gweld mewn sawl ardal ar hyd yr AHNE.

Tynnwyd sylw penodol at waith a wnaed i waredu jac y neidiwr (himalayam balsam) mewn ardaloedd ym Mhistyll a Penllech gan ddiolch i Gyfoeth Naturiol Cymru ar eu cydweithrediad. Fodd bynnag, nodwyd bod y rhywogaeth hwn wedi cael ei ganfod mewn ardaloedd eraill megis yn Nefyn, gan bwysleisio ei fod allan o reolaeth yn yr ardal honno, gan egluro bydd cyllideb i waredu'r rhywogaeth yn cael ei ddefnyddio mewn ardaloedd ble mae hyder y byddai'n cael ei waredu, yn hytrach nag ymgeisio i'w waredu mewn ardaloedd ble mae'r sefyllfa allan o reolaeth.

Yn debyg, cadarnhawyd bod gwaith wedi cael ie wneud i waredu canglwm siamaneaidd (japanese knotweed), gan dynnu sylw penodol at y gwaith a wnaed yn ardal Trefor. Eglurwyd y credir ei fod yn llai o her i waredu'r rhywogaeth hwn, gan egluro bod posibilrwydd na fydd y gyllideb gyfan yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf gan fod swyddogion mewn rheolaeth o'r sefyllfa. Anogwyd unrhyw un sydd yn gweld y rhywogaeth o fewn yr AHNE i gysylltu gyda'r Uned er mwyn ei waredu.

Yn yr un modd, eglurwyd bod gwaith wedi cael ei wneud i waredu coed rhododendron mewn ardaloedd ger Garn Boduan a thraeth Llanbedrog, gan gadarnhau cynlluniau i barhau i waredu'r rhywogaeth yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Dadgarboneiddio neuaddau / canolfannau pentref**

Adroddwyd mai bwriad y prosiect hwn oedd cynorthwyo neuaddau pentref a chanolfannau i ddad-garboneiddio drwy gyflwyno mesurau megis insiwleiddio, newid i oleuadau ynni isel LED, systemau gwresogi di-garbon a chreu systemau i storio ynni adnewyddol. Eglurwyd byddai cyflawni'r newidiadau hyn hefyd yn arwain at arbedion ariannol i'r adeiladau hynny. Tynnwyd sylw at dri adeilad sydd wedi elwa o'r prosiect yn ystod 2025-26 sef:

- Canolfan Edern – uwchraddio goleuadau i rai LED.
- Neuadd Goffa Sarn – cyflwyno system storio trydan o'i paneli solar er mwyn arbed arian yn hytrach na'i werthu yn ôl i'r grid.
- Y Ganolfan, Trefor – cynnal archwiliad o'r adeilad cyn gosod paneli solar, system storio, insiwleiddio yn ogystal ag uwchraddio'r goleuadau i rai LED.

**Abergeirch**
Nodwyd bod yr ardal hon ger pentref Edern wedi cael ei ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn sgil ei lystyfiant tir gwlyb corsiog arbennig.

Cynhaliwyd adroddiad asesiad ecolegol ar y safle a ddangoswyd bod dirywiad wedi bod yng nghyflwr y rhinweddau arbennig sydd i'w gweld yno. Ymhelaethwyd bod yr adroddiad wedi argymell gwelliannau posib i'r ardal, gan gadarnhau bydd rhain yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Prosiectau cyffredinol ac ar y cyd**
Tynnwyd sylw at brosiectau bychan eraill sydd wedi cael eu cyflawni megis adfer llwybr aml-ddefnydd a gosod meinciau picnic ym Mhorthor, gwella llwybr lleol ger Bodwrdda Aberdaron, gwella llwybrau allweddol yng Nghlynnog ac adnewyddu rheiliau haearn a oedd wedi rhydu ar y cei yn Nhrefor.

Eglurwyd hefyd bod AHNE Llŷn wedi elwa o brosiectau ar y cyd gyda Thirweddau Dynodedig eraill megis prosiect 'Yr Awyr Dywyll' a 'Tirlun 2 - Pecyn Addysg Tirwedd'.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau ~~a~~ ganlyn:

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod yr Uned yn werthfawrogol o gymorth gwirfoddolwyr ar y prosiectau hyn pan yn briodol, gan gydnabod nad oes modd derbyn gwirfoddolwyr ar gyfer pob prosiect, megis cynlluniau i wella llwybrau yng Nghlynnog.

Tynnwyd sylw swyddogion at nifer o faterion i'w hystyried fel-prosiectau cyfalaf megis ardaloedd o ganglwm siapaneaidd yng Ngharreg y Defaid ac yn Mynytho, yr angen i osod rheiliau haearn ar y ffordd i draeth Llanbedrog bod coed Rhododendron ger rhaeadr Gyrn Goch yn ogystal â'r angen i ailbeintio arwyddion a cherrig filltir yn ardal Mynytho. Cynigiwyd hefyd y dylai swyddogion gysylltu gyda Plas Glyn y Weddw er mwyn gweld os buasent yn dymuno i goed cynhenid gael eu plannu yno, gan bod difrod wedi bod i'w coedwig yn y blynyddoedd diwethaf yn dilyn tywydd garw.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod dolen i brosiect Pecyn Addysg Tirwedd wedi cael ei rannu gyda holl ysgolion sydd o fewn yr AHNE, gan gadarnhau bydd y ddolen yn cael ei rannu gydag aelodau'r Cyd-bwyllgor er gwybodaeth.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Swyddog ANHE Llŷn bod Cynghorau Cymuned wedi derbyn gwybodaeth o'r holl brosiectau hyn wrth iddynt ddatblygu, gan nodi y gobeithiwyd bod aelodau Cynghorau Cymuned sydd yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor hwn hefyd yn adrodd gwybodaeth yn ôl i'w cyfarfodydd.

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- **Sicrhau bod dolen i brosiect 'Tirlun 2 – Pecyn Addysg Tirwedd' yn cael ei rannu gyda'r Aelodau.**

**6. TIRLUN BYW**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Gweithgareddau AHNE Llŷn. Tynnwyd sylw'n fras at y prif fanylion canlynol:

Eglurwyd bod Tirlun Byw yn brosiect sydd yn cael ei ariannu ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Gwynedd am gyfnod o dair blynedd hyd at 2027. Ymhelaethwyd mai nod y prosiect yw i hyrwyddo natur byw tirlun yr AHNE gan gynnal gweithgareddau i bobl sydd yma yn gweithio, byw neu'n ymweld. Nodwyd bod y prosiect yn ymateb i nifer o amcanion megis Cynllun Rheoli'r AHNE, amcanion Cyfoeth Naturiol Cymru a Llesiant Llywodraeth Cymru yn ogystal â meysydd blaenoriaeth Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

Cyflwynwyd data am y gweithgareddau sydd wedi cael eu cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â niferoedd yr unigolion sydd wedi eu mynychu. Ymhellach cyflwynwyd lluniau o'r digwyddiadau hynny er mwyn cael blas o'r hyn sydd wedi cymryd lle. Darparwyd copïau o gerddi sydd wedi cael eu cyfansoddi gan ysgolion lleol yn dilyn prosiect a wnaed gyda chymorth Meirion Macintyre Huws er mwyn hyrwyddo'r awyr dywyll a'i bwysigrwydd o fewn yr AHNE. Cadarnhawyd bod y prosiect hwnnw wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan yr ysgolion.

Manteisiwyd ar y cyfle i amlygu rhai digwyddiadau sydd ar y gweill megis sesiwn wybodaeth rhywogaethau ymledol ar 30 Ebrill yn ogystal a sesiwn wybodaeth ar gynnal teithiau tywys yn llwyddiannus ar 14 Mai.

Cadarnhawyd bod cynlluniau ar waith i baratoi rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn 2026/27 gan groesawu cynigion am ddigwyddiadau a fyddai'n fuddiol i'w cynnal yn ystod y cyfnod hwnnw.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Swyddog Gweithgareddau AHNE Llŷn y gobeithir bydd y cerddi a gyfansoddwyd gan ddisgyblion ysgol fel rhan o'r prosiect, yn cael eu cyhoeddi mewn rhifyn o bapur bro Llanw Llŷn. Fodd bynnag, cadarnhawyd nad oes modd eu cyhoeddi yng nghylchlythyr Llygad Llŷn oherwydd byddai angen eu cyfieithu gan fod y newyddlen honno yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog. Er hyn, gobeithiwyd bydd cyfle yn y dyfodol ar gyfer cyhoeddi'r cerddi hyn ymhellach.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Swyddog Gweithgareddau AHNE Llŷn bod modd i aelodau'r Cyd-bwyllgor hwn dderbyn gwahoddiad i'r gweithgareddau hyn drwy gais cyfarfod i'w calendr yn hytrach na neges dros e-bost, os ydynt yn dymuno hynny, gan ofyn i unrhyw aelod i gysylltu gyda'r Swyddog Gweithgareddau.

Mewn ymateb i ymholiad, pwysleisiodd Swyddog Gweithgareddau AHNE Llŷn bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Er hyn, cydnabuwyd bod un digwyddiad wedi ei gynnal ble nad oedd y gyflwynwraig yn medru'r Gymraeg ac nid oedd amser digonol wedi bod er mwyn cyfieithu ei chyflwyniad ac felly y bu i'r digwyddiad gael ei gynnal yn Saesneg.

Amlygwyd y byddai sesiwn gwybodaeth ar enwau coed, blodau ac adar yn y Gymraeg yn fuddiol fel rhan o'r rhaglen waith, ac os nad yw'n bosib, bod tudalen yn cael ei greu ar y wefan yn cynnwys yr holl wybodaeth fel nad yw'r enwau hynny yn cael eu colli.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

**7. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn. Tynnwyd sylw at y prif faterion canlynol:

Eglurwyd bod yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, 2025-26. Cadarnhawyd bod cyfanswm o £95,000 yn y Gronfa ar ddechrau'r blwyddyn ariannol gan nodi bod cyfran helaeth o'r arian wedi cael ei ddyrannu i brosiectau lleol yn yr ardal, sef:

- 1st Mate Amgueddfa Forwrol Llŷn (£4,506)
- Bws Fflecsi Llŷn (£25,000)
- Llwybrau aml ddefnydd Nefyn (£11,450)
- Pŵer solar Enlli (£9,572)
- Cae Chwarae Llanbedrog (£22,145)
- Clwb rhwyfo Porthdinllaen (£750)
- Dadgarboneiddio neuadd Rhiw (£2,250)
- Menter Rabar (£4,995.37)
- Gardd Antur Aelhaearn (£1,000)
- Gwefan Tafarn y Fic, Llithfaen (£2,439)

Adroddwyd bod y cyfanswm a ddyrannwyd i'r prosiectau hyn yn £84,107.37. Atgoffwyd bod hawl gan yr Uned AHNE i hawlio grant o £9,500 ar gyfer gweinyddu'r gronfa. Cadarnhawyd mai gwir gyfanswm o'r arian sydd wedi cael ei ddyrannu o'r gronfa yw £93,607.37, os yw pob prosiect yn hawlio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mynegwyd balchder bod £95,000 wedi cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i'r Gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-27 gan gadarnhau'r angen i gynnal cyfarfod yn fuan er mwyn ystyried ceisiadau newydd sydd wedi dod i law.

Tynnwyd sylw bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Dogfen Fframwaith diwygiedig sydd yn cynnwys nifer o newidiadau arwyddocaol i lywodraethiant y gronfa, megis:

- Mae'n ofynnol i 60% o gyllideb y Gronfa gael ei glustnodi ar gyfer prosiectau sydd yn mynd i'r afael neu ymateb i argyfwng natur a hinsawdd a cholledion bioamrywiaeth.
- Rhoddir pwyslais ar gyd-weithio gyda thirweddau eraill, y sector wirfoddol a chymunedau ynghyd â phartneriaeth eraill.
- Mae angen cynnwys gwybodaeth am y Gronfa ar wefan a ddiweddarwyd yn gyson gyda mynediad clir i ymgeisio a wybodaeth bellach. Cadarnhawyd bod AHNE Llŷn yn gweithredu hyn eisoes.
- Newidiadau i Aelodaeth - eglurwyd rhaid cael rhwng 3 a 5 aelod ar Banel y Gronfa, gyda gofyniad i bob Aelod wasanaethu am o leiaf dwy flynedd ac uchafswm o 4 mlynedd yn olynol. Nodwyd yr angen i adolygu'r aelodaeth bob 2

flynedd. Tynnwyd sylw ei fod yn ofynnol i bob aelod fynychu unrhyw hyfforddiant a drefnir gan Lywodraeth Cymru er mwyn bod yn ymwybodol o'i flaenoriaethau.
- Cadarnhawyd bod y Panel yn atebol i'w benderfyniadau ac yn gallu darparu cyfiawnhad am eu penderfyniadau. Nodwyd bydd penderfyniadau yn cael eu hysbysebu ar y wefan.

Cadarnhawyd bod y newidiadau hyn yn weithredol o flwyddyn ariannol 2026-27 ymlaen gan nodi'r angen i addasu aelodaeth y Panel ar fyrder. Atgoffwyd yr Aelodau o aelodaeth y Panel gan egluro bod modd i'r Cynghorwyr Angela Russell a John Brynmor Hughes barhau fel aelodau am y tro gan nad ydynt wedi gwasanaethu am bedair blynedd. Fodd bynnag, eglurwyd nad oes modd i'r Cynghorwyr Gruffydd Williams, a Gareth Williams, Morgan Jones Parry, Sian Parri na Noel Davey fod yn aelodau mwyach oherwydd eu bod wedi gwasanaethu am 4 mlynedd yn olynol neu fwy.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau ~~a~~ ganlyn:

Trafodwyd aelodaeth y Panel gan gadarnhau'r Aelodau fel ~~a~~ ganlyn:
- Y Cynghorydd Angela Russell (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd)
- Jina Gwyrfai (Cyngor Cymuned Trefor a Llanaelhaearn)
- Eirian Allport (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr)
- Seimon Jones (Cyfeillion Llŷn)

Cadarnhawyd bydd swyddogion yn cadarnhau os bydd y Cynghorydd John Brynmor Hughes yn bwriadu parhau fel aelod o'r Panel yn dilyn y cyfarfod hwn. Ymhelaethwyd bod canllawiau ar gyfer y Panel yn caniatáu rhwng 3 a 5 Aelod gan gadarnhau bydd modd cynnal cyfarfodydd y Panel gyda'r aelodaeth newydd hwn.

Derbyniwyd sylwadau bod canllawiau newydd Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais mawr ar eu blaenoriaethau yn hytrach na chaniatáu i gymunedau lleol allu cymeradwyo'r prosiectau hynny a fyddai o fwyaf o fudd cymunedol i'w drigolion ac ymwelwyr.

Diolchwyd i'r Swyddogion am grynodeb o'r prosiectau a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, gan ategu cais i dderbyn gwybodaeth am nifer o flynyddoedd ariannol pan gyflwynir yr adroddiad hwn yn y dyfodol. Eglurwyd byddai hyn yn caniatáu i aelodau'r Cyd-bwyllgor gymharu pa brosiectau sydd wedi cael eu cymeradwyo, y mathau o brosiectau sydd yn ymgeisio ac yr ardaloedd sydd yn manteisio ar y cyfleoedd mae'r Gronfa yn ei gynnig. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Swyddog AHNE Llŷn bod modd casglu'r gwybodaeth ac y byddai'n cael ei gynnwys mewn adroddiadau i'r dyfodol.

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- **Gofyn bod gwybodaeth am y prosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa dros gyfnod o o leiaf 3 mlynedd yn cael ei gyflwyno fel atodiad i'r Adroddiad hwn i'r dyfodol.**
- **Ethol yr unigolion canlynol i fod yn aelodau o Banel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy:**
    - **Y Cynghorydd Angela Russell (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd)**
    - **Jina Gwyrfai (Cyngor Cymuned Trefor a Llanaelhaearn)**
    - **Eirian Allport (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr)**
    - **Seimon Jones (Cyfeillion Llŷn)**

- **Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (os dymunir)**

**8. ADRODDIAD CYFLWR YR AHNE**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn.

Nodwyd mai bwriad yr adroddiad yw derbyn darlun llawn a chlir o gyflwr yr ardal gan gynnwys y tirlun, byd natur, pobol, gwaith, amgylchedd hanesyddol, iaith a'r diwylliant. Adroddwyd bod yr adroddiad yn sail ar gyfer y broses o adolygu'r Cynllun Rheoli newydd yr AHNE, gan fod y cynllun presennol wedi dyddio cryn dipyn.

Atgoffwyd bod yr adroddiad cyntaf ar gyflwr yr AHNE wedi cael ei ddatblygu yn 2014, gydag adolygiad ohono wedi ei wneud yn 2021. Nodwyd bod y Cyd-bwyllgor wedi cyflwyno nifer o sylwadau ar yr adroddiad hwnnw a phenderfynu diweddaru'r ddogfen er mwyn derbyn gwybodaeth gyfredol. Cadarnhawyd bod cwmni Craggatack o ardal Cumbria wedi cael eu penodi i gynnal y gwaith o ddatblygu adroddiad o'r newydd, yn dilyn proses tendro.

Eglurwyd bod yr Adroddiad Cyflwr yr AHNE a gyflwynwyd yn y cyfarfod hwn yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd yn 2025, gydag ystod eang o wybodaeth yn derbyn sylw gan gynnwys: lleoliad, llygredd, ynni adnewyddol, llifogydd, treftadaeth naturiol a diwylliannol, dynodiadau cynefinol, yr iaith a diwylliant yn ogystal â pobl a materion iechyd.

Tynnwyd sylw y gobeithir parhau i ddatblygu Cynllun Rheoli  yr AHNE yn dilyn derbyn gwybodaeth o'r Adroddiad Cyflwr. Eglurwyd bydd angen ystyried y broses o gyflawni'r gwaith hwnnw drwy gomisiynu unigolion ac ymgynghorwyr, yn ddibynnol ar dderbyn sicrwydd o gyllidebau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:

Mynegwyd pryder am yr angen i warchod tai a bythynnod traddodiadol o fewn yr AHNE, gan gynnig bod y Cyd-bwyllgor yn ysgrifennu at Bwyllgor Polisi Cynllunio Cyngor Gwynedd i amlygu'r angen i gyflwyno polisïau llymach er mwyn eu gwarchod fel nad oes modd i berchnogion newydd eu dymchwel yn ddi-sail. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio bod y Gwasanaeth Polisi Cynllunio yn cynnal cyfnod o ymgysylltu cyhoeddus ar ddrafft o'r Polisi Cynllunio ar hyn o bryd ac yn annog aelodau'r Cyd-bwyllgor i gyflwyno eu sylwadau drwy'r cyfrwng hwnnw er mwyn sicrhau ei fod yn derbyn ystyriaeth briodol, a'u cynnwys o fewn y polisi arfaethedig.

Ystyriwyd bod rhannau o'r adroddiad yn gynhwysfawr iawn, megis data ar geisiadau cynllunio a gwybodaeth am Yr Awyr Dywyll. Fodd bynnag, ystyriwyd bod lle i wella wrth ymdrin ag effaith economaidd meysydd carafanio a gwersylla, egni adnewyddadwy, ysgolion, iaith a diwylliant ac ail-gartrefi. Teimlwyd nad yw'r meysydd yma wedi derbyn ystyriaeth deg o fewn yr adroddiad. Ystyriwyd os oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer datblygu'r adroddiad ar gael i'r cwmni.

Mynegwyd pryder bod gwybodaeth anghyflawn wedi cael ei gynnwys gan y cwmni ar gyfer llunio adroddiad, gan dynnu sylw penodol at ran o'r adroddiad a oedd yn cadarnhau mai dim ond 8 o safleoedd carafanau ac 1 maes gwersylla oedd yng Ngwynedd yn 2025. Yn debyg, ystyrir bod y wybodaeth a gyflwynwyd am niferoedd a meintiau aneddiadau hefyd yn ddiffygiol. Cyfeiriwyd at drydedd ran o'r adroddiad sydd yn nodi nad oes digon o wybodaeth ar gael i fanylu ar niferoedd o dai haf sydd yn ardal Botwnnog ac Aberdaron. Yn debyg i sylwadau blaenorol, ystyriwyd os oes gan aelodau'r

Cyd-bwyllgor a swyddogion Cyngor Gwynedd y wybodaeth i lawr er mwyn rhannu gyda'r cwmni er mwyn sicrhau bod eu hadroddiad yn gywir ac yn adlewyrchiad teg o wir gyflwr yr AHNE, er mwyn sicrhau bod gwaelodlin gywir ar gyfer y gwaith yn cael ei bennu.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Swyddog yr AHNE y bwriedir i'r Cynllun Rheoli gael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor hwn yn y dyfodol ond bod pwysau ar gapasiti'r Uned AHNE i gyflawni'r gwaith yn arwain at y bwriad o gomisiynu ymgynghorwyr allanol i gyflawni'r gwaith. Yn dilyn yr ymateb, gofynnwyd os oes modd i'r Cyd-bwyllgor hwn ymgymryd â mwy o rôl yn y broses o ddatblygu'r Cynllun Rheoli gan bod nifer o aelodau yn awyddus i gefnogi'r Uned er mwyn sicrhau bod y gwybodaeth a gynhwysir o fewn yr Adroddiad Cyflwr yn gyflawn a chynhwysfawr. Mewn ymateb, cadarnhaodd Swyddog yr AHNE bod sylwadau sydd wedi cael eu cyflwyno gan aelodau'r Cyd-bwyllgor wedi cael eu nodi gan yr AHNE ac eu bod yn cael eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer y gwaith o ddatblygu Cynllun Rheoli newydd, ar y cyd gyda'r cynllun presennol. Gobeithiwyd penodi ymgynghorwyr annibynnol er mwyn mynd drwy'r holl wybodaeth er mwyn cychwyn y gwaith o asesu'r sefyllfa er mwyn cyflwyno Cynllun Rheoli safonol. Cydnabuwyd nad oes modd cadarnhau amserlen ar gyfer yr adroddiad ar hyn o bryd, gan obeithio bydd modd cyflwyno amserlen drafft i gyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor hwn, pan bydd materion cyllido wedi cael eu cadarnhau.

Mewn ymateb i ymholiad ar rôl i gynghorau cymuned i fewnbynnu gwybodaeth i'w gynnwys o fewn yr adroddiad, eglurodd Swyddog yr AHNE mai tystiolaeth ffeithiol sydd ei angen ar hyn o bryd er mwyn gosod gwaelodlin ac nid yw'r wybodaeth hynny ar gael gan y cynghorau cymuned. Fodd bynnag, nodwyd bydd modd iddynt ddarparu sylwadau yn y dyfodol.

Cyflwynwyd syniad i gysylltu gyda gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn a yw'r wybodaeth sydd yn ddiffygiol o fewn yr Adroddiad, ar gael er mwyn gallu datblygu'r broses o greu Cynllun Rheoli.

Mewn ymateb i gynnig i wrthod adrannau diffygiol yr adroddiad, eglurodd Swyddog yr AHNE bod yr adroddiad hwn yn un sydd wedi cael ei gomisiynu gan Cyngor Gwynedd ac mai penderfyniad y gwasanaeth byddai i barhau yn seiliedig ar y wybodaeth oddi fewn iddo. Ymhelaethwyd yr ystyrir parhau gyda'r broses o lunio Cynllun Rheoli gan ddefnyddio'r  adroddiad hwn, gan annog aelodau'r Cyn-bwyllgor i ddod i gyswllt ar unrhyw faes ble maent yn credu y dylid canfod gwybodaeth ychwanegol, er ystyriaeth i'r Uned AHNE Llŷn. Derbyniwyd nifer o sylwadau pellach gan Aelodau nad oeddent yn credu bod modd derbyn yr adroddiad ar hyn o bryd gan ei fod yn ddiffygiol, gan obeithio bydd sicrhau cywirdeb yn cynorthwyo Uned AHNE Llŷn wrth fynd ati i ddatblygu Cynllun Rheoli'r AHNE.

**PENDERFYNIAD**

- **Gwrthod adrannau diffygiol yr adroddiad gan ofyn i Uned yr AHNE brysuro i sicrhau cywirdeb data ar fyrder, gyda cymorth yr Aelodau.**
- **Gofyn i Swyddog yr AHNE lythyru Pwyllgor Polisi Cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar ran y Cyd-bwyllgor hwn, yn gofyn yn ffurfiol am warchodaeth i gymeriad tai a bythynnod yr AHNE wrth ddatblygu polisi cynllunio newydd, gyda chymorth y Cynghorydd Gruffydd Williams.**
- **Annog Aelodau i gymryd rhan mewn digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus y Gwasanaeth Polisi Cynllunio.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.00yh a daeth i ben am 5.45yh

____________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Gorffennaf 13eg 2026 |
| **TEITL** | Prosiect Tirlun Byw |
| **PWRPAS** | Rhannu Gwybodaeth a Diweddaru |
| **AWDUR** | Swyddog Digwyddiadau AHNE Llŷn (EWH) |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth. |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Dyma ddiweddariad am brosiect Tirlun Byw – sef prosiect tair blynedd (2024–27) sydd yn cael ei ariannu ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd. Mae'r prosiect yn cydnabod yr AHNE fel tirlun byw lle mae pobol yn ymweld, yn byw ac yn gweithio ynddi - felly rhoddir pwyslais ar roi cyfleon i bobol fwynhau'r AHNE ac i gyfrannu yn uniongyrchol at gynnal a chadw’r nodweddion arbennig.

**2.0 RHAGLEN WAITH 2025/2026**

2.1 Cafwyd crynodeb yn y cyfarfod diwethaf am y gweithgareddau a digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26. Cyflwynwyd adroddiad a hawliad grant i Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn 31ain o Fawrth.

**3.0 YMWELIAD MONITRO CYFOETH NATURIOL CYMRU**

3.1 Croesawyd Linda Ashton o Cyfoeth Naturiol Cymru ar ymweliad monitro â’r ardal ar Fehefin 18fed. Cafwyd cyfle i ymweld â gwahanol safleoedd sy’n berthnasol i ddigwyddiadau’r flwyddyn ddiwethaf ynghyd â chyfle i drafod rhaglen waith y flwyddyn i ddod.

3.2 Diolchwn i Linda am ei hamser ac arweiniad ac rydym yn edrych ymlaen i gydweithio eto yn ystod 2026/27.

**4.0 RHAGLEN WAITH 2026/27**

4.1 Ni fydd llawer o newidiadau i’r rhaglen waith am y misoedd i ddod. Bydd y prif themâu yn parhau – sef nifer o weithgareddau amrywiol i’r cyhoedd a disgyblion ysgolion lleol ynghyd â chyfres o hyfforddiant sgiliau gwledig. Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau gwirfoddoli ac yn datblygu yr elfen o hyrwyddo a marchnata’r AHNE drwy ddiweddaru’r wefan a chyhoeddi rhifyn arall o Llygad Llŷn.

4.2 Mae sawl gweithgaredd wedi digwydd eisoes – dyma grynodeb:-

- 30/04/2026 - Sesiwn Wybodaeth Planhigion Ymledol
- 07/05/2026 – Sesiwn Wybodaeth Cynnal Teithiau Cerdded Llwyddiannus
- 22/06/2026 – Sesiwn Wirfoddoli – Casglu Sbwriel Bryncroes

- 29/06/2026 – Sesiwn Wirfoddoli  - Casglu Sbwriel Sarn
- 03/07/2025 – Sesiwn Wirfoddoli – Rheoli Planhigion Ymledol yn Llanbedrog
- 06/07/2026 – Sesiwn Wirfoddoli – Casglu Sbwriel Botwnnog

4.3 O ran yr wythnosau nesaf – dyma grynodeb o weithgareddau ar y gweill. Mae croeso cynnes i chi ymuno – a gwerthfawrogir yn fawr pe baech yn rhannu'r wybodaeth:-

- 15/07/2026 – Melin Daron – Sgwrs gyda Glyn Roberts yn Aberdaron
- 17/07/2026 – Hanes Melinau Llŷn – Sgwrs gyda Glyn Roberts yn Llannor
- 14/08/2026 – Hyfforddiant Codi Cloddiau yn Uwchmynydd
- 21/08/2026 - Hyfforddiant Codi Cloddiau yn Uwchmynydd
- 05/09/2026 – Crwydro yn Aberdaron
- 07/09/2026 – Crwydro yng Nghlynnog Fawr

**5.0 ARGYMHELLIAD**

5.1 Gofynnir i'r Aelodau dderbyn yn yr wybodaeth. Mae croeso hefyd i gynnig sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer ein rhaglen weithgareddau am y flwyddyn i ddod.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Gorffennaf 13eg 2026 |
| **TEITL** | Prosiectau cyfalaf AHNE Llŷn |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth i aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys diweddariad am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn. Mae'r prosiectau hyn yn cael ei hariannu trwy gynllun grant gan Lywodraeth Cymru sef Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLlC). Dim ond Tirweddau Dynodedig Cymru, sef y Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, sydd yn cael ymgeisio am y cyllid hwn.

**2.0 THEMÂU Y PROSIECTAU CYFALAF**

2.1 Gosodwyd themâu isod gan Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf TCLlC ar gyfer 2025-27:

- Hyrwyddo bioamrywiaeth ac adfer natur
- Hwyluso dadgarboneiddio
- Gwelliannu cyffredinol ym ymwneud hefo mynediad, isadeiledd a phwysau yn sgîl ymwelwyr

**3.0 DATBLYGIADAU DIWEDDAR**

3.1 Yn ystod y misoedd diweddar mae gwaith prosiectau cyfalaf yn Llŷn wedi bod yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cwblhau gwaith i ail-agor llwybr Bodwrdda (Aberdaron)
- Gwaith gwella mynediad yn Abergeirch/Porthdinllaen
- Trin Jac y Neidiwr (Balsam) ar rai safleoedd
- Cynllunio gwaith uwchraddio ardal Y Queens, Aberdaron
- Paratoi ar gyfer gwaith ar goed conwydd ar Garn Fadryn a Garn Boduan.

3.2 Rhoddir mwy o wybodaeth am y prosietau uchod yn y cyfarfod.

**4.0 ARGYMHELLIAD**

4.1 Derbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Gorffennaf 13 2026 |
| **TEITL** | Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **PWRPAS** | Diweddaru Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiect AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn darparu gwybodaeth am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn y flwyddyn ariannol bresennol (2026-27).

1.2 Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y prosiectau a gymeradwywyd dros y chwe blynedd diwethaf, gan roi darlun o'r buddsoddiad a'r canlyniadau a gyflawnwyd drwy'r Gronfa.

## 2.0 Y GRONFA YN 2026/27

2.1 Mae **£95,000** ar gael ar gyfer y Gronfa y Ddatblygu Cynaliadwy yn y flwyddyn ariannol yma (2026/27).

2.2 Dyma rhestr o'r prosiectau sydd wedi eu cefnogi hyd yma :-

- CDC 26.1 Amgueddfa Morwrol Llŷn £4,605
- CDC 26.2 Cydio yn Awen Enlli £3,000
- CDC 26.3 Gwasanaeth Fflecsi Llŷn £25,000
- CDC 25.4 Melin Daron ` £10,000
- CDC 25.5 Tafarn y Fic £11,550
- CDC 25.6 Solar Menter Rabar £5,913.75

Hawl gweinyddol uned AHNE Llŷn £9,500

2.2 O'r cyfanswm hwn, mae tua £25,000 yn parhau i fod ar gael i gefnogi prosiectau cymwys. Anogir unrhyw unigolion neu sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwneud cais i gysylltu am ragor o wybodaeth neu i drafod syniadau prosiect posibl a allai fod yn gymwys i dderbyn cymorth drwy'r Gronfa.

## 3.0 PROSIECTAU HANESTDDOL Y GRONFA (2020- 2026)

**2025-26 (£95,000 ar gael)**

| Cyfeirnod | Prosiect | Grant |
|---|---|---|
| CDC 25.2 | 1st mate Amgueddfa Forwrol | £4,506.00 |
| CDC 25.3 | Bws Fflecsi Llŷn | £25,000.00 |

| | | |
|---|---|---|
| CDC 25.4 | Llwybrau aml ddefnydd Nefyn | £11,450.00 |
| CDC 25.5 | Pŵer solar Enlli | £9,572.00 |
| CDC 25.6 | Cae chwarae Llanbedrog | £22,145.00 |
| CDC 25.7 | Clwb rhwyfo Porthdinllaen | £750.00 |
| CDC 25.8 | Datgarboneiddio neuadd Rhiw | £2,250.00 |
| CDC 25.9 | Menter Rabar | £4,995.37 |
| CDC 25.10 | Gardd Antur Aelhaern | £1,000.00 |
| CDC 25.13 | Gwefan Tafarn y Fic, Llithfaen | £2,439.00 |
| Gweinyddu | | £9,500.00 |
| **Cyfanswm:** | | **£93,607.37** |

**2024-25 (£100,000 ar gael)**

| Cyfeirnod | Prosiect | Grant |
|---|---|---|
| CDC 24.1 | Morfa Dinlle RSPB | £2,911.00 |
| CDC 24.2 | 1st mate Amgueddfa Morwrol | £5,895.00 |
| CDC 24.3 | Cydio yn awen Enlli | £3,000.00 |
| CDC 24.4 | Cae chwarae Llanbedrog | £29,012.00 |
| CDC 24.5 | Melin Daron | £18,962.00 |
| CDC 24.6 | Antur Aelhearn | £1,463.00 |
| CDC 24.7 | Menter Rabar | £2,767.00 |
| CDC 24.8 | Menter y Tŵr | £21,850.00 |
| CDC 24.11 | Hysbysfwrdd Tudweiliog | £1,485.00 |
| CDC 24.12 | Porth Ceiriad RSPB | £2,652.00 |
| Gweinyddu | | £10,000.00 |
| **Cyfanswm:** | | **£ 100,000** |

**2023-24 (£100,000 ar gael)**

| Cyfeirnod | Prosiect | Grant |
|---|---|---|
| CDC.23.1 | 1st Mate Amgueddfa Forwrol | £5,895.00 |
| CDC 23.2 | Bws Fflecsi Llŷn | £30,000.00 |
| CDC 23.3 | Balchder a chelf Llŷn | £5,000.00 |
| CDC 23.4 | Storws Enlli | £30,000.00 |
| CDC 23.5 | Diogelu enwau Llanengan | £7,799.25 |
| CDC 23.6 | Llyfrgell pethau Llŷn | £1,156.23 |
| CDC 23.7 | Gŵyl RS Thomas | £1,271.00 |
| CDC 23.8 | Amgueddfa Melinau Gwlân | £2,000.00 |
| CDC 23.9 | Arddangosfa Berwyn Jones | £1,766.00 |
| CDC 23.10 | Cae chwarae Rhydyclafdy | £979.00 |
| CDC 23.11 | Menter Rabar | £1,937.62 |
| CDC 24.12 | Adfer Cynefin y fran goesgoch | £2,820.77 |
| CDC 24.13 | Cynllun Rheoli Ynys Enlli | £937.50 |
| Gweinyddu | | £10,000 |
| **Cyfanswm:** | | **£ 98,662.37** |

**2022-23 (£100,000 ar gael)**

| Cyfeirnod | Prosiect | Grant |
|---|---|---|
| 1 | Neuadd Abersoch | £2114.84 |
| 2 | Hysbysfyrddau Aberdaron | £1273.98 |
| 3 | Arddangosfa Sarn | £773.00 |
| 4 | Giat Llandegwning | £367.50 |
| 5 | Bws Arfordir Fflecsi | £10,060.00 |
| 6 | Amgueddfa Forwrol Llyn | £2775.00 |
| 7 | Cae Chwarae Llithfaen | £9,400.00 |
| 8 | Gŵyl RS Thomas | £1,725.00 |
| 9 | Eglwys Newydd Aberdaron | £6,697.00 |
| 10 | Clwb hwylio Aberdaron | £2,925.00 |
| 11 | Ffenestri Hafod Ceiri | £12,100.00 |
| 12 | Arolwg Coedlan Carl, Llanaelhaearn | £3,000 |
| 13 | Traeth Aberdesach | £4,500.00 |
| 14 | Melin Daron | £19,841.00 |
| 15 | Plas Carmel, Aberdaron | £3,803.25 |
| 16 | Prosiect Bagia baw cŵn | £793.95 |
| Gweinyddu | | £10,000 |
| **Cyfanswm:** | | **£ 92,149.52** |

**2021-22 (£100,000 ar gael)**

| Cyfeirnod | Prosiect | Grant |
|---|---|---|
| 1 | Cae Chwarae Llithfaen | £9,308.00 |
| 2 | Amgueddfa Forwrol Llyn | £2,870.00 |
| 3 | Melin Daron | £5,000.00 |
| 4 | Nant Gwrtheyrn | £6,560.00 |
| 5 | Archaeoleg Gwynedd Dinas Dinlle | £9,950.00 |
| 6 | Celf Hafod Ceiri | £750.00 |
| 7 | Gŵyl RS Thomas | £750.00 |
| 8 | Bws Arfordir | £16,200.00 |
| 9 | Prosiect Plas Carmel | £10,000.00 |
| 10 | Antur Aelhaearn | £6,150.00 |
| 11 | Meinciau Solar Abersoch | £5250.00 |
| 12 | Hen luniau Efailnewydd | £1,805.00 |
| 13 | Angor Nefyn | £2,475.00 |
| 14 | Caffi Hafod Ceiri | £13,939.00 |
| **Gweinyddu** | | **£8,993.00** |
| **Cyfanswm:** | | **£ 100,000.00** |

**2020-21(£100,000 ar gael)**

| Cyfeirnod | Prosiect | Grant |
|---|---|---|
| 1 | Tafarn yr Heliwr - ailddatblygu | £4,629.00 |
| 2 | Cofeb Aberdaron | £1,623.00 |
| 3 | Cae Chwarae Aberdaron | £23,306.00 |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Amgueddfa Forwrol Llŷn | £2,980.00 |
| 5 | Melin daron | £5,000.00 |
| 6 | Storws Enlli | £6210.00 |
| 7 | Iard Porth Ysgaden | £3,140.00 |
| 8 | Astudiaeth gwefru Congol Meinciau | £1,100.00 |
| 9 | Maes parcio Aberdesach | £5,200.00 |
| 10 | Gardd Ysgol Botwnnog | £3,600.00 |
| 11 | Y Fran goesogoch RSPB | £3,875.00 |
| 12 | Capel Newydd, Nanhoron | £1,185.00 |
| 13 | Blodau Botwnnog | £160.00 |
| 14 | Porth Cychod | £2,243.00 |
| 15 | Adeilad gardd ysgol Botwnnog | £3,965.00 |
| 16 | Lon y Plas, Enlli | £1,639.00 |
| 17 | Gwefan tafarn yr Heliwr | £2,930.00 |
| 18 | Gardd Pontio | £203.00 |
| 19 | Mêl Enlli | £1,609.00 |
| 20 | Adeilad Antur Aelhaearn | £3,000.00 |
| Gweinyddu | | £10,000 |
| **Cyfanswm:** | | **£ 87,597.00** |

**4.0 ARGYMHELLIAD**

4.1 Derbyn y wybodaeth.

| PWYLLGOR | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
|---|---|
| DYDDIAD | Gorffennaf 13eg 2026 |
| TEITL | Adroddiad Cyflwr yr AHNE |
| PWRPAS | Ystyried addasiadau i'r Adroddiad |
| AWDUR | Swyddog AHNE |
| ARGYMHELLIAD | Derbyn yr awgrymiadau i addasu'r Adroddiad |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Cyflwynwyd copi o Adroddiad o Gyflwr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn 2025 i'r cyfarfod blaenorol o'r Cydbwyllgor ar Fawrth y 18fed 2026.

1.2 Nodwyd mai pwrpas Adroddiad o Gyflwr yr AHNE yw cael darlun llawn a chlir o gyflwr yr ardal – sydd yn cynnwys gwybodaeth am y tirlun, byd natur, pobol, gwaith, yr amgylchedd hanesyddol, iaith a diwylliant ayb. Mae'r adroddiad yn sail ar gyfer y broses o adolygu'r Cynllun Rheoli.

**2.0 ADRODDIAD CYFLWR YR AHNE 2025**

2.1 Paratowyd brîff ac aethpwyd drwy broses dendr ar gyfer y gwaith o baratoi Adroddiad Cyflwr mwy cyfredol i'r AHNE. Dewisiwyd cwmni Craggatack i wneud yr adroddiad newydd – cwmni gyda profiad helaeth o wneud adroddiadau o'r math ac roedd eu cynnig yn dangos gwerth da am arian.

2.2 Mae'r Adroddiad yn cynnwys ystod eang o wybodaeth am y tirlun, amgylchedd, y gymdeithas, olion archaeolegol, amgylchedd hanesyddol ac iaith a diwylliant. Hefyd mae yn cyd-fynd gyda canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru.

2.3 Gellir gweld copi cyflawn o Adroddiad Cyflwr yr AHNE 2025 trwy ddilyn y linc ganlynol: Adroddiad Cyflwr AHNE Llŷn 2025 .

**3.0 SYLWADAU AR YR ADRODDIAD**

3.1 Trafodwyd Adroddiad Cyflwr yr AHNE 2025 yn y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar Fawrth y 18fed. Gwnaed nifer o sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad ac ni chafodd er derbyn gan y Cydbwyllgor fel sail ar gyfer symud ymlaen i adolygu'r Cynllun Rheoli.

3.2 Mae'r Uned AHNE wedi rhoi ystyriaeth i'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod ac wedi eu crynhoi mewn ffurf tabl gan roi sylw – gyda awgrym i addasu yr Adroddiad neu beidio. Gofynnir yn awr i'r Aelodau roi sylw i'r sylwadau hyn yn **Atodiad 1.**

3.3 Y gobaith yw y gall aelodau'r Cydbwyllgor gytuno ar gyfres o newidiadau i'w gwneud i'r Adroddiad, ac ar sail hynny, ei derbyn fel dogfen derfynol.

## 4.0 CAMAU NESAF

4.1 Yn dilyn cwblhau'r Adroddiad Cyflwr bwriedir ail-afael yn y gwaith o adolygu'r Cynllun Rheoli. Mae rhai materion eisioes wedi eu trafod yn y Cydbwyllgor.

4.2 Oherwydd y gwaith sydd ynghlwm â pharatoi/ adolygu'r Cynllun Rheoli, bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r broses o wneud y gwaith. Gall hyn gynnwys y posibilrwydd o gomisiynu'r gwaith, yn amodol ar sicrhau ffynhonnell gyllid briodol.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr wybodaeth a'r newidiadau sy'n cael eu hawgrymu i'r Adroddiad Cyflwr yr AHNE 2025.

## ATODIAD 1

### Crynodeb o sylwadau ar Adroddiad Cyflwr yr AHNE 2025

| Sylw gan | Crynodeb o'r sylw | Ymateb yr Uned AHNE |
|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Tudweiliog | Gwybodaeth annigonol am y Gymraeg. Dim cyfeiriad at Arolwg Tai ac Iaith Llangwnnadl 2024 oedd yn rhan o brosiect Perthyn a gomisiynwyd gan Cwmpawd ar ran Llywodraeth Cymru.. | Cytuno fod yr iaith yn ased pwysig – **awgrymir addasu'r Adroddiad Cyflwr i gynnwys mwy o wybodaeth** a chyfeirio at Arolwg Tai ac iaith Llangwnnadl. |
| Cyngor Cymuned Tudweiliog | Mae angen talu sylw i effaith y Cynllun Datblygu Lleol a'r 4,000 o dai ar rinweddau'r AHNE a'r  Gymraeg. | Darlun o gyflwr yr AHNE ar gyfnod penodol (2025) yw'r Adroddiad Cyflwr – nid yw yn ceisio rhagweld effeithiau datblygiadau penodol felly **awgrymir na ddylid cyfeirio at hyn yn yr Adroddiad**. Fodd bynnag, mae'r materion hyn yn berthnasol i'w hystyried wrth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli'r AHNE. Bydd y Cydbwyllgor yn medru cyfrannu at adolygu'r ddau Gynllun yma. |
| Cyngor Cymuned Tudweiliog | Hefyd effaith prif Bolisi Gosod o dan Ddeddf Tai 1996 – er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i iaith ymgeiswyr wrth osod tai. | Eto, darlun o gyflwr yr AHNE ar gyfnod penodol (2025) yw'r Adroddiad Cyflwr felly **awgrymir na ddylid addasu'r Adroddiad**.<br>Mae gosod tai yn fater dyrys sy'n cael ei reoli trwy ddeddfwriaeth a pholisïau. Gall oblygiadau y polisi gosod tai gael eu codi yn y Cynllun Rheoli eu hun ac hefyd fe allai'r Cydbwyllgor gysylltu gyda'r Adrannau perthnasol i nodi y pryderon. |
| Cyngor Cymuned Tudweiliog | Mae'n amlwg fod rhywbeth wedi mynd o'i le wrth i Gyngor Gwynedd ganiatáu tai cymdeithasol er bod y cymunedau eu hunain yn eu gwrthwynebu. Mae cydlyniant cymunedau yn rhan allweddol o rinweddau'r AHNE. | Mae nifer o dai cymdeithasol wedi derbyn caniatâd cynllunio yn ardal Gwynedd, gan gynnwys Llŷn, yn y blynyddoedd diweddar. Mae rhai wedi eu caniatáu gan y Cyngor a rhai gan Arolygydd drwy'r drefn apeliadau. Gall y pryderon am hyn cael eu codi yn y Cynllun Rheoli a gall y Cydbwyllgor godi eu pryderon trwy roi sylwadau yn ystod cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol.  Fodd bynnag, **awgrymir na ddylid cyfeirio at hyn yn yr Adroddiad Cyflwr**. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfeillion Llŷn | Map Maint Cymharol Anheddau (Tud 152) dydi'r map ddim yn gwneud synnwyr e.e dangosir 3 annedd yn Llangwnnadl. Dim ymwybyddiaeth am yr ardal lleol (gan yr Ymgynghorwyr). | Cytunir a'r sylwadau. Nid yw'r map hwn yn gywir nac yn darparu gwybodaeth defnyddiol – **awgrymir dileu y map o'r Adroddiad.** |
| Cyfeillion Llŷn | Nifer o ail-gartrefi – Adroddiad yn nodi fod data yn anghyflawn a dim gwybodaeth am Aberdaron a Botwnnog – be mae hynny yn ei olygu ? | Y broblem yw fod yn anodd cael y data ar lefel benodol yr AHNE ei hun. Fodd bynnag cytunir hefo'r sylw – **awgrymir addasu'r Adroddiad trwy ddefnyddio data ar gyfer wardiau i gael darlun gwell o'r sefyllfa**. |
| Cyfeillion Llŷn | Diffyg gwybodaeth am safleoedd carafán. Yr Adroddiad yn nodi fod 80 safle yn 2021 a dim ond cofnod o 8 yn 2025 ar gyfer y Sir gyfan. Awgrymu comisiynu adroddiad. | Yn anffodus nid yw'r Gofrestr Gyhoeddus bellach yn cadw gwybodaeth am nifer a math o unedau. Fodd bynnag mae'r Uned wedi sefydlu fod 96 safle yn yr AHNE yn ogystal â 12 safle Gofrestredig (Clybiau). Hefyd mae nifer helaeth o safleoedd carafanau/ gwersylla eraill gerllaw**. Awgrymir cynnwys yr wybodaeth yma yn yr Adroddiad a nodi gweithred yn y Cynllun Rheoli i gynnal arolwg mwy manwl o'r sefyllfa yn y dyfodol.** |
| Cyfeillion Llŷn | Cyflwr Afon Soch -newid mawr i fod mewn cyflwr gwael oherwydd effaith dynol. Mae angen mwy o wybodaeth am hyn. | Mae'r wybodaeth yma yn gywir. Y rheswm dros y newid mewn byr amser yw fod y sampl yn fychan (dim ond ychydig o afonydd sydd yn yr AHNE). **Awgrymir cynnwys brawddeg i egluro hyn yn yr Adroddiad.** |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig | Mae'r Adroddiad yn cynnwys ystod mwy eang o wybodaeth ar sail mapiau a thablau ystadegol sydd ar y cyfan yn drwyadl a defnyddiol. | Sylw cefnogol ar yr Adroddiad. |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig | Mae gwybodaeth newydd a dadansoddiad – yn arbennig o geisiadau cynllunio a'r awyr dywyll. | Sylw cefnogol ar yr Adroddiad. |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig | Cytunir a'r sylw am effaith negyddol ar y tirlun ac arfordir gan ddatblygiadau carafán wedi eu lleoli neu eu dylunio yn wael, strwythurau ynni adnewyddol ac adeiladau amaethyddol (Sbardunwyr Newid) fodd bynnag byddwn yn nodi fod polisïau diweddar wedi bod yn eithaf llwyddiannus i leihau effaith niweidiol | Sylw cefnogol ar yr Adroddiad. |

| | | |
|---|---|---|
| | safleoedd carafanau newydd a strwythurau ynni adnewyddol. | |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig | Cytunir a'r sylwadau yn y tabl Sbarbunwyr Newid am effeithiau negyddol ar Hawliau Tramwy/ Mynediad ac fod diffyg asesu cyflwr yn gwanhau cynllunio strategol ar gyfer y rhwydwaith. Awgrymir ychwanegu fod tanariannu difrifol yn cyfyngu yn arw ar opsiynau ac y dylid cyfeirio at y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Nodir hefyd fod y Llwybr Arfordir yn ased anhygoel os y gellir ei gynnal gyda adnoddau digonol. | Sylwadau cefnogol ar yr Adroddiad.<br><br>Hawliau Tramwy **– awgrymir cynnwys cyfeiriad at y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r Llwybr Arfordir Cenedlaethol yn yr Adroddiad ond peidio â chynnwys sylwadau am dan-ariannu oherwydd fod elfen o farn yn hynny.** |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig | Wedi disgwyl mwy am asesiad o ddosbarthiad ffisegol ac effaith economaidd sectorau fel safleoedd carafanau (gweler Adroddiad Cyflwr 2021 LUC). Mae'n fater o bryder fod yr Ymgynghorwyr wedi darganfod fod yr wybodaeth yn y Gofrestr Gyhoeddus o Safleoedd Carafanau a Gwersylla Trwyddedig ddim ar gael neu yn hollol anghyflawn. Materion eraill allai fod wedi cael mwy o sylw fyddai ynni adnewyddol, y grid trydan, mastiau ffôn a materion gwledig/ cymunedol yn effeithiol ar siopau, ysgolion, tai, ail-gartrefi ayb (roedd Pennod 7 o Adroddiad Cyflwr 2021 LUC wedi ceisio rhoi sylw i rai o'r materion hyn). | Mae gwybodaeth wedi ei gynnwys am ail-gartrefi a dynodiadau tai ond ddim am y stoc dai. **Awgrymir geisio sicrhau'r wybodaeth yma gan Adran Dai y Cyngor i'w gynnwys yn yr Adroddiad a hefyd cynnwys yr wybodaeth am garafanau a gwersylla fel y nodwyd.**<br>Mae gwybodaeth am Ynni Adnewyddol ond ddim ar raddfa fach/ domestig – byddai yn anodd cael yr wybodaeth yma.<br>Grid Trydan – nid oes peilonau mawr (132KVA) yn yr ardal a byddai yn anodd cyfleu gwybodaeth am holl wifrau a pholion eraill yn yr Adroddiad.<br>Materion economaidd/ cymunedol – gellir cyfeirio at y rhain yn y Cynllun Rheoli ei hun – a hefyd gallent fwydo i mewn i adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol. |